Uned Atal Trais
Violence Prevention Unit

# Data Gwyliadwriaeth Trais ar gyfer Cymru: Diweddariad cenedlaethol gan Uned Atal Trais Cymru

## Tachwedd 2024

**Mae Uned Atal Trais Cymru** yn cefnogi partneriaid yng Nghymru i gyflawni dull iechyd y cyhoedd o atal trais, wedi'i lywio gan ddata ac yn seiliedig ar dystiolaeth.
Sefydlwyd **Porth Atal Trais Cymru** fel adnodd rhyngweithiol ar-lein i sicrhau y gellir defnyddio, tynnu a dadansoddi amrywiaeth o ddata gweinyddol ar wyliadwriaeth trais. Mae hyn yn galluogi tueddiadau i gael eu nodi a'u monitro ar lefel leol a chenedlaethol yng Nghymru i lywio strategaethau atal trais a chynlluniau gweithredu.
Mae Porth Atal Trais Cymru ar gael i bob partner sy'n gweithio ym maes atal trais.

### Ar hyn o bryd, caiff data eu cadw ar Borth Atal Trais Cymru

- Data gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan, Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro, Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg, Bwrdd Iechyd Addysgu Powys a Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe am bobl sy'n mynd i adrannau achosion brys yn dilyn ymosodiad.
Mae'r meysydd data yn cynnwys data sylfaenol ar ddemograffeg megis dyddiad ac amser yr ymweliad â'r adran achosion brys, oedran, rhyw, ethnigrwydd, amddifadedd, lleoliad yr ymosodiad, math o ymosodwr, arf a ddefnyddiwyd, ffynhonnell atgyfeirio a chanlyniad. Mae data o 2018 ymlaen ar gael.
- Data Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Ambiwlans Cymru ar alwadau sy'n gysylltiedig â thrais.
- Data ar dderbyniadau i'r ysbyty oherwydd anafiadau sy'n gysylltiedig â chyllell/gwrthrych miniog ar gyfer Cymru gyfan, gan gynnwys dadansoddiad yn ôl oedran, rhyw ac ardal.
Mae data o 2016 ymlaen ar gael.
- Data ar droseddau a gofnodwyd gan Heddlu De Cymru a Heddlu Gogledd Cymru. Mae'r meysydd data yn cynnwys demograffeg dioddefwyr a throseddwyr megis oedran, rhyw, ethnigrwydd, amddifadedd, math o drosedd. Mae data o 2018 ymlaen ar gael.

### Casgliad o Adroddiadau Porth Atal Trais Cymru

Mae'r casgliad o adroddiadau Porth Atal Trais Cymru yn cynnwys data sensitif ychwanegol nad ydynt ar gael i'r cyhoedd, megis:

- Caiff adroddiadau monitro trais Cymru eu cyhoeddi bob chwe mis gan edrych ar y data diweddaraf ar dueddiadau data amlasiantaeth ar drais yng Nghymru.
- Asesiadau o anghenion strategol trais rhanbarthol
- Mae adroddiadau thematig ar gael:
  - Trais yn erbyn pobl hŷn;
  - Anffurfio organau cenhedlu benywod a brofwyd gan fenywod sy'n byw yng Nghymru;
  - Data gwasanaethau canolfannau atgyfeirio ymosodiadau rhywiol;
  - Trais yn yr ysgol.

### Ffynonellau Data Ychwanegol

- Mae StatsCymru yn gasgliad ar-lein gan Lywodraeth Cymru o ddata ystadegol ar gyfer Cymru. Gall defnyddwyr weld setiau data a llunio siartiau. Mae'r setiau data yn cynnwys gwybodaeth allweddol am boblogaeth Cymru, yr economi, addysg, trafnidiaeth ac iechyd.
- Data Arolwg Troseddu Cymru a Lloegr a gofnodwyd ar lwyfan y Swyddfa Ystadegau Gwladol.

### Diweddariad ar Set Ddata Gofal Brys Cymru

- Bydd Set Ddata Gofal Brys Cymru, dan fandad Llywodraeth Cymru, yn gofyn i fyrddau iechyd yng Nghymru ddefnyddio safon ddata genedlaethol gyson, a'i rhoi ar waith ar draws y system gofal brys a gofal argyfwng gyfan i gofnodi data. Bydd pobl sy'n mynd i adrannau achosion brys oherwydd trais neu ymosodiad yn cael eu cynnwys. Mae tîm Uned Atal Trais Cymru yn cefnogi'r broses o roi Set Ddata Gofal Brys Cymru ar waith. Mae targed uchelgeisiol ar gyfer cyflawni wedi'i bennu, sef mis Mawrth 2025.